

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Signature Clinic, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 01 Awst 2024

Dyddiad cyhoeddi: 01 Tachwedd 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4.	Y camau nesaf	18
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	19
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	20
	Atodiad C - Cynllun gwella	21

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Signature Clinic, Caerdydd ar 01 Awst 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o uwch-arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygwr cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 8 holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd bod y rheolwr cofrestredig a'r staff yn y clinig yn gweithio i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion wrth iddynt gael triniaethau cosmetig.

Roedd y cleifion yn cael amrywiaeth o wybodaeth cyn ac ar ôl y driniaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd i'w gweld yn ardal y dderbynfa. Roedd y cleifion hefyd yn cael gwybodaeth am eu triniaethau cyn iddynt gael eu cynnal.

We were told that patients were contacted by the aftercare team after their procedure with the opportunity to give feedback on their experience. However, we did not see any patient feedback displayed within the clinic.

Roedd y clinig yn sicrhau y gallai pobl sydd â phroblemau symudedd gael mynediad hwylus i'r gwasanaeth, a oedd yn cynnwys cyfleusterau ystafell ymolchi addas ar gyfer cleifion â gofynion mynediad symudedd. At hynny, roedd staff y clinig wedi ymgymryd â hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arddangos adborth i gleifion fel bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni'.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth i gleifion ar gael
- Roedd yr amgylchedd yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd
- Roedd y cleifion yn cael cyfle i roi adborth yn dilyn eu triniaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Cawsom sicrwydd fod y prosesau yn y clinig yn ddiogel ac yn effeithiol. Gwelsom fod y cleifion yn cael eu monitro'n briodol cyn, yn ystod ac ar ôl eu triniaeth.

Gwelsom fod y prosesau atal a rheoli heintiau yn briodol ar gyfer y lleoliad. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig ddigon o drefniadau dihalogi.

Gwelsom fod y cyfarpar adfywio yn addas a bod y staff wedi cael hyfforddiant priodol er mwyn ymdrin ag argyfyngau.

Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu storio'n gywir ac roedd y stoc yn briodol ar gyfer y triniaethau roedd y gwasanaeth yn eu cynnal.

Gwelsom fod cofnodion meddygol yn cael eu cadw'n dda ac roeddent yn hawdd eu deall. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd cyfnod ystyried rhwng yr ymgynghoriad a'r adeg rhoi cydsyniad.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cleifion yn cael cynnig hebryngwr, a bod hyn yn cael ei gofnodi yn y nodiadau.
- Rhaid sicrhau bod cyfnod ystyried ar gael rhwng yr ymgynghoriad a'r adeg rhoi cydsyniad.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cleifion yn cael eu monitro'n briodol drwy gydol eu triniaethau
- Roedd y prosesau atal heintiau yn addas ac yn briodol
- Roedd y cyfarpar brys yn briodol ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant i'w ddefnyddio.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth y clinig yn glir ac yn strwythuredig.

Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol a bod y clinig yn cadw cofnod o ddyddiadau adnewyddu hyfforddiant gan ddefnyddio cronfa ddata bwrpasol.

Gwelsom gyfathrebu da ym mhob rhan o'r tîm a thrwy'r gwasanaeth ehangach. Roedd cyfarfodydd llywodraethu yn cael eu rhannu â safleoedd eraill y gwasanaeth a'r chwaer-gwmni.

Nodwyd gennym fod y staff yn cael arfarniadau rheolaidd a dywedwyd wrthym fod cyfleoedd hyfforddi a chyrsgiau pellach ar gael iddynt ar gais.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y trefniadau llywodraethu wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf a gwelsom amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau i ategu'r prosesau yn y clinig.

- Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod y staff wedi cael amrywiaeth o hyfforddiant
- Gwelwyd cyfathrebu da ym mhob rhan o'r tîm a'r gwasanaeth ehangach.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y lleoliad i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig. Cawsom gyfanswm o wyth holiadur wedi'u cwblhau. Roedd yr holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r clinig ers hyd at flwyddyn.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Roedd pob aelod o'r staff yn gyfeillgar iawn ac roedd pawb yn y tîm yn broffesiynol iawn ac yn gwneud yn siŵr fy mod i'n deall pob rhan o'r broses ac yn gwneud yn siŵr fy mod i'n gyfforddus"

"Amgylchedd eithriadol o lân a phroffesiynol iawn, o'r dderbynfa a'r staff i'r llawfeddyg a staff y theatr. Gwnaeth argraff dda iawn arnaf."

Diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth o ddeunydd hybu iechyd ar gael yn ardal y dderbynfa a oedd yn cynnwys deunydd ar roi'r gorau i smygu, atal heintiau a phwysigrwydd hydradu.

Urddas a pharch

Gwelsom fod gan Signature Clinic ddwy ystafell drin ac mai dim ond un ohonynt oedd yn cael ei defnyddio ar gyfer triniaethau. Roedd y llall yn cael ei defnyddio ar gyfer triniaethau esthetig meddygol. Roedd gan y ddwy ystafell drin ystafell asesu wrth ei hymyl lle gallai'r cleifion ddadwisgo ac a oedd yn cynnig man preifat lle gallai'r staff dynnu lluniau cyn y llawdriniaeth. Roedd gan bob ystafell ddrws y gellid ei gloi. Gwelsom fod yr ystafelloedd yn daclus ac nad oedd unrhyw annibendod.

Ni wnaeth y gwasanaeth weld unrhyw gleifion ar ddiwrnod ein harolygiad; fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael eu cyfarch wrth iddynt gyrraedd y clinig a bod y staff yn cael eu cyflwyno iddynt yn anffurfiol.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Roedd y rheolwr cofrestredig a'r meddygon ymgynghorol yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn ac ar ôl y driniaeth fel y gallent wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael amrywiaeth o wybodaeth fanwl ar lafar ac yn ysgrifenedig cyn ac ar ôl y driniaeth, er mwyn sicrhau y gallent wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Roedd y clinig yn defnyddio cofnodion meddygol digidol, a oedd yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr a manwl am gydsyniad y cleifion.

Roedd gan y clinig wefan llawn gwybodaeth a oedd yn rhestru'r triniaethau a oedd ar gael a manylion y triniaethau hynny. Nododd y rheolwr cofrestredig y byddai'r cleifion na allent gael gafael ar y wybodaeth hon yn ddigidol yn cael copi caled o'r wybodaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig gopïau i ni o ddatganiad o ddiben a chanllaw i gleifion y clinig. Gwnaethom nodi nad oedd y datganiad o ddiben yn gyfredol gan nad oedd yn cynnwys manylion cywir am y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol. Mae'r datganiad o ddiben a ddarparwyd wedi cael ei ddiweddarau yn dilyn yr arolygiad er mwyn cynnwys manylion y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol newydd. Mae'r ceisiadau hyn wedi cael eu cyflwyno i dîm cofrestru AGIC.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedodd y staff fod y cleifion yn cael gwybodaeth ysgrifenedig ac ar lafar am eu gofal a'u triniaeth fel rhan o'r broses o gynllunio gofal. Cadarnhaodd y staff mai anaml y byddai oedi cyn gweld cleifion ar ddiwrnod eu hapwyntiad yn y clinig. Pe bai oedi na ellid ei osgoi, cadarnhaodd y staff y byddai'r cleifion yn cael gwybod am hynny.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion a oedd yn dangos y broses lle y byddai asesiadau cyn triniaeth yn cael eu cynnal.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom fod Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith, a dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Dywedwyd wrthym fod y clinig yn amgylchedd cynhwysol, p'un a oedd gan unigolyn unrhyw nodwedd warchoddedig ai peidio. Cawsom sicrwydd y byddai hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu parchu fel mater o drefn, ac y byddai rhagenwau a ffefrir bob amser yn cael eu defnyddio.

Roedd mynediad gwastad i'r clinig ac roedd y drysau yn addas i gadeiriau olwyn. Roedd yr ystafelloedd trin yn fawr ac wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod, gyda drysau llydan. Roedd toiled hygyrch ar gael ar lawr gwaelod y clinig, ger y fynedfa.

Nid oedd gan y clinig ddolen sain i gleifion ag anawsterau clywed. Er mwyn sicrhau y caiff anghenion unigol y cleifion eu diwallu, gall cleifion ddod â hebryngwr i'r clinig i'w helpu ag anghenion cyfathrebu.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

We were told that patients were contacted by the aftercare team after their procedure with the opportunity to give feedback on their experience. The registered manager showed us how a record of feedback is kept in a log along with an action plan where they have made changes as a result of feedback received.

Rydym yn argymhell y dylai'r gwasanaeth arddangos bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn ardal y dderbynfa.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod adborth yn cael ei arddangos yn y clinig. Gwelsom fod gwybodaeth am sut i roi adborth wedi'i chynnwys yn y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben, ond nid oedd y wybodaeth hon yn cael ei harddangos yn y clinig.

Cawsom gopi o'r polisi cwynion a oedd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar ac a oedd yn cynnwys manylion AGIC fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd y clinig wedi'i leoli mewn parc busnes ac roedd lleoedd parcio ar gael. Mae'r clinig wedi'i leoli ar y llawr gwaelod a gellir mynd i mewn drwy ddefnyddio system intercom ddiogel ar ddrws ffrynt a rennir. Roedd amgylchedd y clinig yn gynnes a chroesawgar. Roedd yr ystafell aros wedi'i haddurno i safon uchel ac roedd y cynllun wedi'i ystyried yn ofalus.

Gwelsom fod ardal y dderbynfa yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda, a'i bod yn olau ac yn fawr. Roedd digon o seddau a lluniaeth ar gael i'r cleifion. Roedd y toiledau wedi'u lleoli ger y fynedfa ac roeddent yn addas i gleifion ag anawsterau symudedd. Roeddent yn lân ac mewn cyflwr da.

Gwelsom fod amgylchedd y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a bod modd glanhau'r arwynebeddau yn briodol. Roedd glendid yr ardaloedd clinigol yn briodol ar gyfer cynnal triniaethau llawfeddygol. Gwelsom nad oedd unrhyw beryglon yn y clinig a'i fod yn daclus.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Clinig rhan amser yw Signature Clinic sydd ar agor saith diwrnod y mis. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw staff yn bresennol ar y safle pan fo'r clinig ar gau. Mae cleifion y mae angen cyngor arnynt y tu allan i'r oriau hyn yn cael cyfarwyddyd i gysylltu â chanolfan alwadau lle gallant siarad â chlinigydd.

Roedd gan y clinig nifer o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith. Roedd y clinig yn defnyddio rhaglen gyfrifiadurol, sef pCloud, i storio'r polisiâu a'r gweithdrefnau hyn ynghyd â'r cofnodion meddygol, a gallai pob un o ganghennau Signature Clinic gael gafael arnynt.

Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg amgylcheddol yn cael eu cynnal gan gwmni allanol ac nid oeddent ar gael i'w gweld ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwelsom gofnodion hyfforddiant staff a oedd yn dangos bod y staff wedi cael Hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol. Gwelwyd fod cyfarpar brys ar gael yn yr ystafell triniaethau.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd y clinig yn lân yr olwg ac mewn cyflwr da. Roedd yr holl gyfarpar clinigol yn yr ystafelloedd triniaethau yn lân ac yn edrych yn newydd. Esboniodd y rheolwr cofrestredig y broses ar gyfer dihalogi cyfarpar. Mae'r clinig yn defnyddio gwasanaeth oddi ar y safle ar gyfer rhywfaint o'r cyfarpar. Dywedwyd wrthym mai

cyfarpar tafladwy oedd yn cael ei ddefnyddio yn y rhan fwyaf o achosion. Gwnaethom siarad ag arweinydd atal a rheoli heintiau y sefydliad a oedd wedi'i leoli oddi ar y safle, ond nododd ei fod yn ymweld â'r clinig yn rheolaidd. Dywedodd wrthym nad oedd wedi cael gwybod am unrhyw achosion o heintiau yng nghlinig Caerdydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cawsom gopiâu o amserlenni glanhau ar gyfer pob rhan o'r clinig.

Gwelsom fod gwastraff clinigol yn cael ei waredu'n briodol mewn biniau melyn dan glo y tu allan i'r clinig a bod contractau gwastraff ar waith.

Maeth

Nid oedd y clinig yn darparu pryddau i gleifion gan nad oeddent yn aros am gyfnodau hir. Gwelsom fod diodydd poeth ac oer ar gael yn y dderbynfa a bod modd darparu byrbryddau bach pe byddai angen.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel mewn cabinet dan glo yn yr ystafell triniaethau ac roedd allweddi yn cael eu cadw'n ddiogel gan ymarferydd cofrestredig. Wrth edrych ar y cofnodion, gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi gan ymarferydd meddygol a bod cofnod o'r broses yn cael ei chadw yn ffeil y claf. Gwelsom fod y stoc meddyginiaethau yn cael ei harchwilio'n rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr bod unrhyw feddyginiaethau y mae'r dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio yn cael eu tynnu oddi yno a'u gwaredu. Roedd y gwasanaeth yn defnyddio fferyllfa allanol i archebu meddyginiaethau.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Dim ond cleifion dros 18 oed y mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i'w trin. Cadarnhaodd ein sgysiau â'r staff eu bod yn cydymffurfio â'r amod hwn.

Roedd polisi diogelu ar waith yr oedd dyddiad o fewn y flwyddyn ddiwethaf wedi'i nodi arno a oedd yn cynnwys rhifau cyswllt y tîm diogelu lleol a siart lif diogelu. Y rheolwr cofrestredig oedd yr arweinydd diogelu dynodedig ar gyfer y clinig. Roedd y staff yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn pe bai ganddynt bryder diogelu. Cawsom enghraifft o adeg y cafodd y polisi diogelu ei ddefnyddio ac y gwnaed atgyfeiriadau at y timau priodol.

Wrth edrych ar y cofnodion hyfforddiant, gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu oedolion a phlant.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu llawdriniaethau cosmetig yn unol â'i ddatganiad o ddiben. Gwnaethom nodi bod y dyfeisiau meddygol a ddefnyddir gan y clinig yn ddigonol ar gyfer y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Gwelsom

dystiolaeth fod y peiriannau wedi cael eu gwasanaethu a'u calibradu yn ddiweddar gan y gwneuthurwr.

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig gofnodion gwasanaeth i ni ar gyfer y peiriannau meddygol yn y clinig a oedd yn gyfredol ac wedi'u cwblhau gan y cyflenwr. Cawsom wybod bod gwiriadau yn cael eu cynnal ar gyfarpar cyn apwyntiadau.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwnaethom adolygu'r broses ar gyfer asesu cleifion cyn, yn ystod ac ar ôl llawdriniaeth. Roedd arwyddion hanfodol i fywyd cleifion yn cael eu cofnodi bob 15 munud yn ystod eu triniaeth. Roedd y broses hon yn cael ei goruchwyllo gan glinigydd cymwysedig. Nodwyd gennym fod y broses hon yn ddiogel a'i bod yn golygu y gall y staff nodi os bydd claf yn teimlo'n anhwylyus a gweithredu'n brydlon.

Esboniodd y rheolwr cofrestredig y broses sydd ar waith er mwyn i'r cleifion gael cymorth ar ôl eu llawdriniaeth. Cawsom sicrwydd fod y broses ddiwygiedig ar gyfer cael cyngor meddygol yn ddiogel ac yn ddigonol.

Rheoli cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a nodwyd gennym eu bod yn gryno ac yn cynnwys yr holl wybodaeth briodol y byddem yn ei disgwyl. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw enghreifftiau yn dangos bod hebryngwr wedi cael ei gynnig yn unrhyw un o'r cofnodion a welsom. Gwnaethom nodi hefyd fod cydsyniad yn cael ei roi ar ddiwrnod y llawdriniaeth ac felly nad oedd y cleifion yn cael unrhyw gyfnod ystyried.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y broses o gynnig hebryngwr yn cael ei chofnodi yn y nodiadau. Rhaid iddo hefyd sicrhau bod y cleifion yn cael cyfnod ystyried rhwng yr ymgynghoriad a'r driniaeth.

Roedd cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel ar raglen ddigidol ac roeddent yn hawdd eu deall. Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw gan ddefnyddio meddalwedd ar-lein ddiogel ac roedd modd edrych arnynt gan ddefnyddio'r feddalwedd honno, yr oedd angen cyfrinair ar ei chyfer er mwyn atal achosion o fynediad heb awdurdod. Roedd hwn yn unigryw i bob aelod o staff. Dywedwyd wrthym mai dim ond staff clinigol a staff rheoli oedd yn gallu gweld cofnodion cleifion. Roedd y system hon yn cael ei defnyddio gan bob un o ganghennau Signature Clinic ac felly roedd modd gweld cofnodion cleifion o bell os oedd angen.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Staff

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal yn Signature Clinic ar gyfer yr arolygiad ym mis Awst 2024.

Cafwyd cyfanswm o 11 o ymatebion gan staff yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, gan olygu nad oedd 11 o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn.

Roedd yr ymateb i'r arolwg staff yn gadarnhaol. Roedd pob un o'r 11 o ymatebwyr yn cytuno eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir i gleifion (11/11).

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

"Mae popeth sydd ar waith yn y clinig yn gweithio'n dda iawn, er enghraifft unrhyw beth o'r amserlen lanhau i'r ffodd yr ymdrinnir â chyfrinachedd. Mae'n lle da iawn i weithio."

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Ers yr arolygiad diwethaf ym mis Medi 2023, mae Signature Clinic wedi newid ei reolwr cofrestredig. Ar adeg yr arolygiad, roedd AGIC wrthi'n newid manylion y cofrestriad.

Gwnaethom adolygu'r Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion, gan nodi eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan y rheoliadau. Roedd copïau papur ar gael yn y dderbynfa i gleifion eu cymryd. Cawsom wybod bod cleifion yn cael copïau ohonynt drwy e-bost cyn eu triniaeth.

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth y clinig wedi'u strwythuro'n dda a bod strwythur sefydliadol clir a oedd yn cynnwys sawl clinig ledled y DU. Mae'r rheolwr cofrestredig yn goruchwyllo'r holl brosesau llywodraethu gyda chymorth gan y rheolwr adnoddau dynol. Dangosodd ein hadolygiad o gofnodion staff fod gan y rheolwr adnoddau dynol system drefnus ar waith i fonitro hyfforddiant, arfarniadau a gwiriadau cyflogaeth y staff.

Roedd y gwasanaeth yn cadw ffeil llywodraethu yn cynnwys yr holl elfennau llywodraethu, gan gynnwys cofnodion o gyfarfodydd staff. Mae'r gwasanaeth yn llunio cylchlythyr bob deufis sy'n cael ei ddsbarthu i bob rhan o'r gwasanaeth ac

sy'n cynnwys manylion digwyddiadau a gwersi a ddysgwyd. Cynhelir cyfarfodydd staff bob chwarter a chaiff pob aelod o staff wahoddiad i fynychu.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod pryderon a digwyddiadau yn cael eu cofnodi gan ddefnyddio system cofnodi digwyddiadau Radar. Caiff cofnod ei gadw ar ffeiliau cyfrifiadurol hefyd ac ymchwilir iddynt gan y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol. Cânt eu trafod mewn cyfarfodydd llywodraethu a chaiff gwybodaeth ei rhannu â phob rhan o'r gwasanaeth drwy gylchlythyr llywodraethu.

Roedd gan y clinig bolisi cwyno ysgrifenedig. Roedd hwn ar gael yn y datganiad o ddiben. Dywedwyd wrthym y byddai'r rheolwr cofrestredig yn ymdrin yn brydlon ag unrhyw gwynion yn y lle cyntaf, pryd bynnag y bo'n bosibl. Gwelsom fod sawl cwyn wedi'i chadw mewn ffolder dogfennaeth yn y clinig. Dywedwyd wrthym fod y cwynion a geir yn ymwneud yn bennaf ag anfodlonrwydd cleifion â chanlyniadau eu triniaethau.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y byddent yn gofyn i gwynion anffurfiol a fynegwyd ar lafar i aelod o staff gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig er mwyn sicrhau ymateb priodol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom nad oes staff cymwysedig wedi'u cyflogi gan y gwasanaeth, ond ei fod yn defnyddio staff asiantaeth rheolaidd sydd wedi cael eu sefydlu gan y gwasanaeth. Fodd bynnag, yn dilyn yr arolygiad cawsom wybod bod sawl aelod o staff cymwysedig llawn amser wedi cael eu recriwtio gan y gwasanaeth.

Roedd aelodau o staff nad oeddent yn gymwysedig wedi'u cyflogi gan y gwasanaeth ac roedd y staff hynny wedi'u lleoli yn un o'i safleoedd eraill. Roedd y staff hyn wedi'u lleoli yn ei glinig yn Birmingham ac yn teithio i Gaerdydd pan fo angen. Dangosodd y rheolwr adnoddau dynol gronfa ddata ar-lein i ni a oedd yn cynnwys cofnodion hyfforddiant a gwiriadau cyflogaeth ar gyfer yr aelodau hyn o staff. Roedd y system hon yn cynnwys marcwyr yn y dyddiadur a rhybuddion i roi gwybod pan oedd angen i'r staff adnewyddu eu hyfforddiant.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Esboniodd y rheolwr cofrestredig fod staff yn bresennol yn y clinig gan ddibynnu ar y diwrnodau agor. Dywedodd wrthym fod un aelod o staff cymwysedig bob amser yn bresennol yn ystod pob triniaeth.

Mae'r rheolwr cofrestredig yn bresennol pan fydd y clinig ar agor er mwyn goruchwyllo'r gwasanaeth ar lefel uwch ac mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld bob yn ail fis.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: **Signature Clinic, Caerdydd**

Dyddiad yr arolygiad: **01 Awst 2024**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw welliannau yr oedd angen eu gwneud ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: **Signature Clinic, Caerdydd**

Dyddiad yr arolygiad: **01 Awst 2024**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Wrth i ni edrych ar y cofnodion meddygol, gwelsom nad oedd unrhyw gynnig o hebryngwr wedi'i gofnodi yn y nodiadau.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y broses o gynnig hebryngwr yn cael ei chofnodi yn y nodiadau.		Caiff hyn ei herio yn yr adroddiad ar gywirdeb ffeithiol. Caiff pob claf yn ardal y clinig ei hebrwng drwy gydol ei ymweliad. Ni fydd cleifion byth ar eu pen eu hunain o'r adeg y cânt eu casglu, drwy'r cyfnod cyn asesu a'r driniaeth. Caiff hyn ei gofnodi yn nodiadau'r claf. Caiff cleifion eu	John Fairhurst	Ar unwaith

			hebrwng gan aelodau staff o'r un rhyw drwy gydol eu taith glinigol yn Signature ac felly nid yw'n wasanaeth 'ychwanegol' sy'n cael ei gynnig, gan ei fod yn safon sy'n rhan gyffredinol o'n gwaith.			
2.	Wrth i ni edrych ar y cofnodion meddygol, gwelsom nad oedd cleifion yn cael cyfnod ystyried rhwng yr ymgynghoriad a'r driniaeth.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cleifion yn cael cyfnod ystyried rhwng yr ymgynghoriad a'r adeg pan fyddant yn rhoi cydsyniad ar gyfer y driniaeth.		Caiff hyn ei herio yn yr adroddiad ar gywirdeb ffeithiol Caiff cleifion eu hadolygu gan feddyg ymgynghorol sydd wedi'i gofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, sy'n disgrifio risgiau a manteision y driniaeth i'r claf, er mwyn i'r claf fynychu o leiaf 14 diwrnod yn ddiweddarach i gwblhau gweithdrefn gydsynio gorfforol â'r llawfeddyg ar y safle	John Fairhurst	Ar unwaith

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad: